

## **Gwybodaeth Ychwanegol at y Cyfarfod Llawn Information Further to Plenary**

*Cyhoeddir ymatebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyflieithiad Saesneg o ymatebion yn y Gymraeg.*

*Responses are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

### **Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(4)0535(FM) a gyhoeddwyd gan Cawyn Jones, y Prif Weinidog, ar 19 Mehefin 2012 Information further to OAQ(4)0535(FM) Issued by Carwyn Jones, the First Minister, on 19 June 2012**

#### **At/To Paul Davies:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mai addewais ysgrifennu atoch am Fathodynnaau Glas dros dro.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu'r Bathodyn Glas ym mis Ionawr 2010 ac mae'n disgrifio ein cynlluniau i foderneiddio Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu'n gwneud cynnydd da. Erbyn hyn cyflwynwyd Gwasanaeth Gwella'r Bathodyn Glas newydd a dyluniad bathodyn newydd, ac ehangwyd y cynllun i gynnwys plant ifanc sydd â phroblemau meddygol penodedig. Yn ddiweddarach eleni byddwn yn ymgynghori ar gynlluniau i ymestyn y cynllun i gynnwys pobl â namau gwybyddol dwys.

Ein blaenoriaeth nesaf fydd edrych ar yr achos dros gael Bathodyn Glas dros dro, a byddaf yn gwneud yn siŵr fod unrhyw gynigion yn ymarferol a bod modd eu cyflenwi. Os caiff bathodynnaau eu rhoi i ymgeiswyr sy'n dioddef o salwch dros dro gall fod yn anodd cael y bathodynnaau yn ôl, ac rwyf am sicrhau y gallwn roi trefniadau priodol ar waith fel nad oes modd defnyddio'r bathodynnaau dros dro pan nad oes eu hangen mwyach.

Byddai angen i'r cynigion hyn fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y mater.

In Plenary on 29 May I promised to write to you about temporary Blue Badges.

The Blue Badge Action Plan published in January 2010 set out our plans for modernising the Blue Badge Scheme in Wales. We are making good progress on delivering the Action Plan and have now introduced a new Blue Badge Improvement Service (BBIS), badge design and extended the scheme to young children with specific medical problems. Later this year we will be consulting on plans to extend the scheme to people with severe cognitive impairments.

Our next priority will be to look at the case for a temporary Blue Badge and I will want to ensure that any proposals are both feasible and deliverable. If badges are issued to applicants with a temporary illness they may be difficult to recover and I will want to be assured that we can put in place appropriate arrangements so that temporary badges cannot be used when they are no longer required.

These proposals would need to be the subject of a public consultation before a decision is taken on the way forward.